

Polisi ar Sicrhau Gwelliant a Gorfodi

Cynnwys

1	Trosolwg: ein dull o sicrhau gwelliant a gorfodi	3
2	Y llwybr sicrhau gwelliant a gorfodi	7
3	Y fframwaith penderfyniadau diffyg cydymffurfio	12
4	Adnoddau sicrhau gwelliant a gorfodi	18
	Canslo cofrestriad yn wirfoddol.....	21
5	Camau Gorfodi Troseddol.....	23
6	Sylwadau ac apeliadau	26
7	Gwybodaeth.....	28
8	Cyfathrebu a chyhoeddi.....	30
9	Y derminoleg a ddefnyddir yn y Polisi hwn.....	31
	Atodiad A	33
	Atodiad B.....	35

1 Trosolwg: ein dull o sicrhau gwelliant a gorfodi

Cyflwyniad

1.1 Mae'r polisi hwn yn nodi ein dull gorfodi cyffredinol fel rheoleiddiwr gwasanaethau, gan gynnwys yr egwyddorion a'r prosesau a ddilynnir gennym wrth ddefnyddio ein pwerau o dan y ddeddfwriaeth berthnasol (Atodiad A). Rydym yn arolygu mewn perthynas â gofynion y ddeddfwriaeth ac yn cymryd camau yn erbyn darparwyr gwasanaethau lle nad yw'r gofynion hyn yn cael eu bodloni.

1.2 Ein prif nod yw sicrhau y caiff pobl sy'n defnyddio gwasanaethau eu cefnogi i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl, ac na chânt eu peryglu na'u niweidio. Er mwyn cyflawni hyn:

- mae gennym broses gofrestru gadarn, er mwyn sicrhau mai dim ond gwasanaethau sydd wedi rhoi sicrwydd i ni y byddant yn cydymffurfio â'r rheoliadau a gaiff eu cofrestru gennym;
- rydym yn cynnal arolygiadau cyffredinol (wedi'u cynllunio) ac ymatebol;
- mae gennym lwybr gorfodi clir, graddedig a chymesur.

1.3 Daw'r polisi hwn i rym o 1 Mai 2018. Lle rydym wedi rhoi camau gorfodi ar waith cyn 1 Mai 2018 ond nad ydynt wedi cael eu cwblhau, byddwn yn dilyn y polisi hwn. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried unrhyw ganllawiau blaenorol os yw hynny'n fwy perthnasol i ffeithiau achos unigol.

Pwy rydym yn ei reoleiddio

1.4 Rydym yn rheoleiddio'r darparwyr gwasanaethau canlynol:

- | | | |
|--|---|--|
| <ul style="list-style-type: none">• cartrefi gofal (oedolion/plant);• llety diogel;• canolfannau preswyl i deuluoedd;• cymorth cartref; | } | O dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 o 2 Ebrill 2018 |
| <ul style="list-style-type: none">• mabwysiadu;• maethu;• lleoli oedolion;• eirioli. | } | O dan Ddeddf Safonau Gofal 2000
O dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 o 1 Ebrill 2019 |
| <ul style="list-style-type: none">• Gwarchodwyr plant• Gofal a chwarae dydd | } | O dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 |

Egwyddorion sicrhau gwelliant a gorfodi

1.5 Rydym yn defnyddio ein pwerau gwella a gorfodi i hyrwyddo ein hamcan craidd, sef gwella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er lles pobl Cymru. Mae'r egwyddorion canlynol yn sail i'n penderfyniadau am orfodi:

- **Cyfrifoldeb:** Mae darparwyr gwasanaethau yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn bodloni eu gofynion rheoliadol. Oni bai bod angen cymryd camau brys, rydym yn rhoi cyfleoedd i ddarparwyr unioni methiannau a gwella gwasanaethau.
- **Cymesuredd:** Rydym yn cymryd camau sy'n gymesur â'r amgylchiadau, y canlyniadau i'r unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'r risgiau a berir iddynt, ynghyd â gallu ac adnoddau'n darparwr i ymateb. Bydd darparwyr sy'n methu â bodloni'r rheoliadau yn gyson yn wynebu camau gorfodi uwch, gan gynnwys camau posibl i ganslo eu cofrestriad.
- **Effeithlon ac effeithiol:** Rydym yn agored ac yn dryloyw ynglŷn â'n dull gorfodi a'r ffordd rydym yn defnyddio ein pwerau gorfodi. Mae unrhyw gamau a gymerir gennym yn glir, yn gyson, yn amserol, yn deg ac yn gymesur.
- **Rhannu gwybodaeth** Rydym yn gweithio gyda chomisiynwyr, rheoleiddwyr ac asiantaethau a chyrrff proffesiynol eraill i rannu gwybodaeth er mwyn defnyddio'r wybodaeth sydd ar gael am wasanaeth yn effeithiol. Wrth brosesu a rhannu gwybodaeth, rydym yn bodloni'r holl ofynion deddfwriaethol perthnasol.
- **Cymryd camau cydgysylltiedig:** Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod unrhyw gamau gorfodi wedi'u cyd-gysylltu. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fo pryderon am ddiogelu neu faterion iechyd a diogelwch a oruchwylir gan reoleiddwyr eraill.
- **Cynnal hawliau unigolion:** Rydym yn ymrwymedig i hyrwyddo a chynnal hawliau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth. Pan fydd y gofal yn annerbyniol, byddwn yn cymryd camau gweithredu.

Sut rydym yn sicrhau gwelliant ac yn gorfodi cydymffurfiaeth?

1.6 Mae sicrhau gwelliant a gorfodi yn rhan graidd o'n gwaith fel rheoleiddiwr.

Rydym yn gwneud hyn drwy dargedu camau gwella a gorfodi sy'n lleihau'r risg i'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau ac sy'n dwyn darparwyr i gyfrif am unrhyw fethiannau o ran y gwasanaeth.

1.7 Lle y bo'n briodol, rydym yn defnyddio dull graddedig o sicrhau gwelliant a gorfodi yn unol â'n hegwyddorion gorfodi. Pan fydd gennym bryderon neu pan fyddwn

wedi nodi achos o ddiffyg cydymffurfio (h.y. methu â bodloni gofynion y gyfraith), byddwn yn cymryd camau i sicrhau'r gwelliant gofynnol. Fodd bynnag, pan fyddwn yn nodi achosion difrifol, lluosog neu gyson o ddiffyg cydymffurfio, gallwn arfer ein pwerau i gyfyngu ar y ddarpariaeth y gall darparwr ei chynnig yn gyfreithiol, neu, yn y pen draw, atal y darparwr rhag gweithredu yn gyfan gwbl.

1.8 Pan fydd risg uniongyrchol i iechyd a/neu lesiant unigolyn, efallai y bydd angen cymryd camau gorfodi ar unwaith. Bydd y camau gorfodi hyn yn canolbwyntio ar ddiogelu unigolion rhag y risg a nodwyd gennym. Yn yr achosion hyn, efallai na fydd yn briodol defnyddio dull graddedig gyda'r darparwr perthnasol.

Yn erbyn pwy y gallwn gymryd camau gorfodi?

1.9 Pan fydd gennym bryderon neu pan fyddwn wedi nodi achos o ddiffyg cydymffurfio, gallwn gymryd camau gorfodi yn erbyn y darparwr perthnasol¹. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- Darparwyr cofrestredig a/neu unigolion cyfrifol dynodedig, yn dibynnu ar y ddeddfwriaeth berthnasol;
- Person/darparwr sy'n cynnal gweithgaredd rheoleiddiedig heb gofrestriad.

1.10 O dan Ddeddf 2016, gallwn hefyd gymryd camau gorfodi yn erbyn darparwyr cofrestredig ar dair lefel wahanol:

- lefel gwasanaeth unigol, h.y. yn erbyn gwasanaeth unigol a ddarperir mewn man penodol, er enghraifft cartref gofal.
- lefel gwasanaeth cyfan, h.y. mewn perthynas â phob un o'r gwasanaethau o fath penodol a weithredir (e.e. gwasanaethau cymorth cartref) gan y darparwr; neu
- lefel darparwr, h.y. mewn perthynas â phob math o wasanaeth a weithredir fel rhan o bortffolio'r darparwr (e.e. gwasanaethau cymorth cartref, gwasanaethau cartrefi gofal, ac ati).

Pa gamau sicrhau gwelliant a gorfodi y gallwn eu cymryd?

1.11 Mae gennym amrywiaeth o adnoddau gwella a gorfodi er mwyn gwella ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Rydym yn defnyddio ein pwerau sifil i ganolbwyntio ar leihau'r risg i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau rheoleiddiedig. Mae gennym hefyd bwerau troseddol y gellir eu defnyddio i ddwyn darparwyr ac unigolion cyfrifol dynodedig perthnasol i gyfrif am fethiannau difrifol. Mewn rhai achosion, gall fod yn briodol defnyddio pwerau gorfodi sifil a throseddol ar yr un pryd.

¹ Pan ddefnyddir y term 'darparwr' yn y ddogfen hon, rydym yn cyfeirio at y rhai a restrir ym mharagraff 1.9.

- a. Mae pwerau sifil yn ein galluogi i wneud y canlynol:
- atal y darparwr rhag parhau i weithredu'r gwasanaeth² (lle y bo angen, gellid cymryd y cam hwn ar fyrder);
 - gwahardd³ y darparwr am gyfnod penodol o amser;
 - cyfyngu ar weithrediad y darparwr, e.e. atal derbyniadau newydd i'r gwasanaeth;
 - ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr gymryd camau penodol;
 - pennu'r darparwr yn wasanaeth sy'n peri pryder/darparwr sy'n peri pryder;
 - cymryd camau i fonitro'r darparwr yn ddwys; neu
 - cynnal arolygiad ar lefel darparwr.
- b. Mae pwerau troseddol yn ein galluogi i wneud y canlynol:
- cychwyn ymchwiliad troseddol;
 - rhoi hysbysiad cosb⁴;
 - argymell erlyniad troseddol


² Ar gyfer gwasanaethau a reoleiddir o dan Ddeddf 2016, mae hyn hefyd yn cynnwys atal y darparwr rhag gweithredu gwasanaeth rheoleiddiedig neu ddarparu gwasanaeth mewn man penodol.

³ Dim ond i wasanaethau a reoleiddir o dan Ddeddf 2000 a Mesur 2010 y mae hyn yn berthnasol.

⁴ Ar gyfer gwasanaethau a reoleiddir o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

2 Y llwybr sicrhau gwelliant a gorfodi

2.1 Mae AGC wedi datblygu llwybr sy'n nodi'r ffordd rydym yn cyflawni gweithgarwch gwella a gorfodi. Mae'r diagram canlynol yn dangos y gwahanol gamau sy'n rhan o'r **llwybr**.



Y llwybr safonol

Yr Arolygiad Cyntaf

2.2 Mae'r llwybr (gweler y siart lif) yn dechrau drwy gynnal arolygiad, sef naill ai arolygiad wedi'i drefnu neu arolygiad o ganlyniad i bryderon a godwyd gan unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, chwythwyr chwiban neu weithwyr proffesiynol/asiantaethau eraill. Mae ein [Cod Ymarfer ar gyfer Arolygu](#) ⁵ yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y ffordd y mae AGC yn cynnal arolygiadau fel arfer.

2.3 Yn ystod yr **arolygiad cyntaf**, rydym yn adolygu canlyniadau unigolion ac ansawdd a diogelwch y gwasanaeth a ddarperir. Pan fyddwn yn nodi methiannau sy'n gyfystyr ag achos o ddiffyg cydymffurfio â'r gyfraith, rydym yn cymhwyso ein 'fframwaith penderfyniadau diffyg cydymffurfio' (gweler Pennod 3). Mae hwn yn pennu ein hymateb i'r achos o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd. Ar y cam hwn o'r llwybr, dyma'r opsiynau sydd ar gael fel arfer:

- a) Nid oes angen cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio mewn perthynas â'r methiant. Mewn amgylchiadau o'r fath, rydym yn tynnu sylw at yr achos o ddiffyg cydymffurfio yn yr adroddiad arolygu, y mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau i fynd i'r afael ag ef, a threfnir arolygiad cynnar o'r gwasanaeth. Caiff y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r achos o ddiffyg cydymffurfio a'r canlyniadau sy'n deillio o hynny eu hasesu yn ystod yr arolygiad nesaf. Mewn amgylchiadau o'r fath, ni fyddwn yn symud ymlaen i gam nesaf y llwybr.
- b) Mae angen cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio mewn perthynas â'r methiant, y mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau i fynd i'r afael ag ef. Caiff y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r achos o ddiffyg cydymffurfio a'r canlyniadau sy'n deillio o hynny eu hasesu yn ystod yr ail arolygiad, yn unol â'r llwybr.
- c) Mae angen ymateb gorfodi mwy uniongyrchol mewn perthynas â'r methiant. Mewn amgylchiadau o'r fath, rydym yn dilyn ein **llwybr ymatebol**. Bydd yr amgylchiadau hyn fel arfer yn ymwneud ag achosion lle rydym wedi nodi gofal annerbyniol gan y darparwr.

2.4 Yn dibynnu ar amgylchiadau achos unigol, efallai y byddwn hefyd yn penderfynu bod angen cyfarfod â'r darparwr. Nid ydym yn gwneud hyn fel mater o drefn ond

⁵ Er bod y Cod Ymarfer yn ymwneud yn benodol ag arolygu gwasanaethau a reoleiddir o dan Ddeddf 2016, mae'r egwyddorion yr un mor berthnasol i'r gwasanaethau hynny a reoleiddir o dan Ddeddf 2000 a Mesur 2010.

mae'n rhoi'r hyblygrwydd i ni gymryd camau os byddwn o'r farn bod angen gwneud hynny. Nid yw ychwaith yn ein hatal rhag cynnal **cyfarfod â darparwr y gwasanaeth** ar ôl yr ail arolygiad (gweler paragraff 2.7).

Yr Ail Arolygiad

2.5 Pan fyddwn yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio i'r darparwr, trefnir **ail arolygiad** â blaenoriaeth. Caiff yr ail arolygiad ei gynnal **o fewn** chwe mis i ddyddiad cyflwyno'r hysbysiad diffyg cydymffurfio. Mae'r ail arolygiad hwn yn canolbwyntio'n benodol ar asesu'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r achos o ddiffyg cydymffurfio a'r canlyniadau sy'n deillio o hynny. Os byddwn yn fodlon bod y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r achos o ddiffyg cydymffurfio bellach yn golygu bod y darparwr yn cydymffurfio a'r gofynion rheoliadol, rhoddir gwybod i'r darparwr a daw'r broses i ben.

2.6 Os na fydd y darparwr yn cydymffurfio a'r gofynion rheoliadol o hyd yn dilyn yr ail arolygiad, byddwn yn cymhwyso'r 'fframwaith penderfyniadau diffyg cydymffurfio' er mwyn llywio ein penderfyniad ac asesu a yw'r achos o ddiffyg cydymffurfio yn parhau i effeithio ar ganlyniadau unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Os bydd yr achos o ddiffyg cydymffurfio yn parhau i effeithio ar ganlyniadau, bydd yr hysbysiad diffyg cydymffurfio yn parhau ar agor a rhoddir gwybod i'r darparwr y caiff y mater ei uwchgyfeirio.

Cyfarfod â darparwr y gwasanaeth

2.7 Os bydd hysbysiad diffyg cydymffurfio yn parhau ar agor yn dilyn ail arolygiad, cynhelir **cyfarfod â darparwr y gwasanaeth**. Byddwn yn ysgrifennu at ddarparwr y gwasanaeth yn amlinellu'r diffyg cydymffurfio parhaus ac yn ei wahodd i gyfarfod. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r darparwr egluro pam y mae'r achos o ddiffyg cydymffurfio yn parhau ac i nodi unrhyw gamau a gymerwyd hyd yma, neu'r rhai y bwriedir eu cymryd, er mwyn datrys unrhyw achos parhaus o ddiffyg cydymffurfio. Nid asesu lefel y gydymffurfiaeth yw diben y cyfarfod ond nodi unrhyw resymau lliniaru neu wybodaeth bellach y dylai ein **Panel Gwella a Gorfodi Lleol** neu **Genedlaethol** eu hystyried wrth ystyried camau gorfodi.

2.8 Disgwylir y bydd darparwyr yn gallu mynychu'r cyfarfod a'u bod yn gymwys i wneud hynny heb fod angen cymorth allanol neu gyfreithiol. Gall y darparwr ofyn am gael dod ag unigolion o'r fath i'r cyfarfod. Fodd bynnag, rhaid i unrhyw gais gael ei wneud yn brydlon er mwyn osgoi unrhyw oedi diangen, a rhaid i ni gytuno i hyn ymlaen llaw.

2.9 Cynhelir y cyfarfod â darparwr y gwasanaeth cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl ac o fewn pedair wythnos i'r ail ymweliad arolygu, **fan bellaf**.

Y Panel Gwella a Gorfodi Lleol neu Genedlaethol

2.10 Os byddwn yn nodi achos parhaus o ddiffyg cydymffurfio yn dilyn ail arolygiad, caiff y mater ei uwchgyfeirio i'r **Panel Gwella a Gorfodi Lleol neu Genedlaethol**. Nid yw'r wybodaeth a roddwyd yn y cyfarfod â darparwr y gwasanaeth yn atal y broses uwchgyfeirio hon.

2.11 Er mwyn sicrhau y caiff penderfyniadau eu gwneud ar y lefel gywir ac ar yr adeg gywir, rydym yn defnyddio paneli gwella a gorfodi ar lefel leol a chenedlaethol. Bydd p'un a oes angen penderfyniad gorfodi ar lefel leol neu genedlaethol yn dibynnu ar y math o gam gorfodi a phenderfyniad sydd eu hangen. Mae gennym gynllun dirprwyon mewnol sy'n nodi'r penderfyniadau y gellir eu gwneud a chan bwy.

2.12 Diben y panel fydd gwneud y canlynol:

- ystyried yr achos o ddiffyg cydymffurfio neu bryderon a nodwyd mewn perthynas â darparwr cofrestredig a/neu unigolyn cyfrifol dynodedig (yn dibynnu ar y ddeddfwriaeth berthnasol);
- adolygu'r dystiolaeth sy'n sail i'r achos o ddiffyg cydymffurfio neu bryderon a rhoi cyfarwyddiadau ynghylch unrhyw dystiolaeth arall sydd ei hangen;
- penderfynu ar y camau gorfodi sifil neu droseddol a argymhellir y mae angen eu cymryd er mwyn gwella ansawdd y gwasanaeth(au) a diogelwch y rhai sy'n ei ddefnyddio/eu defnyddio;
- ystyried y strategaeth gyfathrebu sydd ei hangen ar gyfer unrhyw gamau gorfodi a bennir.

Bydd ein Panel Gwella a Gorfodi Cenedlaethol hefyd yn monitro'r penderfyniadau hynny a wneir gan Baneli Gwella a Gorfodi Lleol, yn ogystal â'u goruchwyllo a sicrhau eu hansawdd.

Y Llwybr Ymatebol

2.13 Dim ond pan fyddwn wedi nodi gwasanaeth a allai fod yn gweithredu heb gofrestrriad, pan fydd digwyddiad difrifol wedi digwydd neu pan fydd risg ddifrifol ac uniongyrchol i'r bobl sy'n defnyddio gwasanaeth a gallai fod angen cymryd camau ar unwaith y byddwn yn dilyn y llwybr ymatebol (gweler y siart lif).

2.14 O dan yr amgylchiadau hyn, efallai y byddwn yn atgyfeirio'r achos ar unwaith at y Panel Gwella a Gorfodi Lleol neu Genedlaethol. Bydd y panel yn ystyried a oes angen rhagor o wybodaeth, ynghyd â'r camau i'w cymryd er mwyn cael y

wybodaeth honno, neu a oes angen cymryd camau gorfodi pellach yn erbyn y darparwr.

3 Y fframwaith penderfyniadau diffyg cydymffurfio

3.1 Rydym yn cymhwyso fframwaith penderfyniadau diffyg cydymffurfio er mwyn sicrhau ein bod yn defnyddio dull strwythuredig o benderfynu pa gamau i'w cymryd mewn ymateb i unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd. Mae'r fframwaith yn cynnwys dau gam:

- Cam 1 – Penderfynu p'un a yw darparwr yn cydymffurfio ai peidio
- Cam 2 – Pennu'r camau gweithredu priodol

Cam 1 – Penderfynu p'un a yw darparwr yn cydymffurfio ai peidio

3.2 Diben Cam 1 yw penderfynu a yw unrhyw un o'r materion a nodwyd yn gyfystyr ag achos o ddiffyg cydymffurfio â'r gyfraith. Wrth benderfynu, byddwn yn adolygu'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr arolygiad ac yn ystyried y canlynol:

- A yw'r dystiolaeth yn dangos achos posibl o ddiffyg cydymffurfio?
- A yw'r dystiolaeth yn ddigonol ac o ansawdd da, yn gredadwy, wedi'i chofnodi'n gywir, ei phwyso a'i mesur yn briodol a'i thriongli i gefnogi'r broses o nodi achos o ddiffyg cydymffurfio?
- A fu dadansoddiad o achos sylfaenol y methiannau a nodwyd?
- Pa reoliadau y mae hyn yn berthnasol iddynt?

3.3 Hefyd, er mwyn cynorthwyo ein hystyriaethau ar Gam 2, byddwn hefyd yn asesu'r canlynol:

- A yw'r dystiolaeth yn nodi unrhyw effaith ar lesiant yr unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu risg bosibl iddo?
- A oes unrhyw faterion hanesyddol y mae angen eu hystyried, h.y. unrhyw achosion blaenorol o ddiffyg cydymffurfio?
- Pa drefniadau arwain a llywodraethu sydd ar waith i fynd i'r afael â'r achos o ddiffyg cydymffurfio ac a yw'r trefniadau hyn yn ddigonol?

3.4 Os yw'n glir bod achos o ddiffyg cydymffurfio, a bod y dystiolaeth yn ddigon cadarn, byddwn yn symud ymlaen i Gam 2.

Cam 2 – Pennu'r camau gweithredu priodol

3.5 Diben Cam 2 yw helpu ein harolygwyr i bennu'r ymateb mwyaf priodol i'r achos o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd. Mae Cam 2 yn darparu matrices risg sy'n ystyried dau faen prawf a fydd yn ein helpu i ddod i benderfyniad, sef:

- a) yr effaith ar lesiant yr unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu'r risg iddo;
- b) y tebygolrwydd y bydd yr achos o ddiffyg cydymffurfio yn parhau neu'n digwydd eto.

3.6 Byddwn yn asesu'r effaith ar lesiant yr unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu'r risg iddo gan ddefnyddio'r canlynol:

	Diffiniad
Effaith fach/gymedrol ar lesiant	Mae'r achos o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn arwain at un neu fwy o'r canlynol: • Effaith Fach neu Gymedrol ar yr unigolyn/unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, gan gynnwys amharchu eu preifatrwydd, eu hurddas, eu hawliau neu eu llesiant • Dirywiad bach neu gymedrol mewn llesiant • Mân gyflwr iechyd ond y gellir ei wrthdroi
Effaith fawr ar / risg fawr i lesiant	Mae'r achos o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn arwain at un neu fwy o'r canlynol: • Effaith sylweddol⁶ ar yr unigolyn/unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu risg sylweddol iddo/iddynt, gan gynnwys amharchu eu preifatrwydd, eu hurddas, eu hawliau neu eu hiechyd a'u llesiant • Anabledd parhaus • Cyflwr iechyd andwyol sylweddol neu na ellir ei wrthdroi • Dirywiad mawr mewn llesiant • Risg sylweddol y bydd plant neu oedolion yn dioddef niwed, camdriniaeth a/neu esgeulustod

⁶Mae dogfen [hawliau dynol](#) AGC yn nodi'r gofal annerbyniol a fyddai'n effeithio'n sylweddol ar lesiant pobl.

3.7 Rydym yn asesu'r tebygolrwydd y bydd yr achos o ddiffyg cydymffurfio yn parhau neu'n digwydd eto yn y dyfodol gan ddefnyddio'r canlynol:

Y tebygolrwydd y bydd yr achos o ddiffyg cydymffurfio yn parhau neu'n digwydd eto	Diffiniad
Annhebygol	Mae'r ffactorau a arweiniodd at yr achos o ddiffyg cydymffurfio yn annhebygol o barhau neu ddigwydd eto gan fod mesurau wedi'u rhoi ar waith neu wrthi'n cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd a/neu reoli'r risg yn llawn.
Tebygol	Mae'r ffactorau a arweiniodd at yr achos o ddiffyg cydymffurfio yn debygol o barhau neu ddigwydd eto oherwydd y rhesymau canlynol: • nid oes mesurau digonol nac effeithiol ar waith i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd na rheoli'r risg yn llawn • nid oes gan ddarparwr y gwasanaeth y gallu, yr adnoddau na'r ymrwymiad digonol i reoli'r risg a/neu fynd i'r afael â'r materion a nodwyd.

3.8 Rydym yn cymhwyso canlyniad yr asesiad yn erbyn y matrices, ym mharagraff 3.6 a 3.7, at y tabl isod er mwyn nodi'r camau priodol i'w cymryd.

Effaith yr achos o ddiffyg cydymffurfio	Y tebygolrwydd y bydd yr achos o ddiffyg cydymffurfio yn parhau neu'n digwydd eto	
	Annhebygol	Tebygol
Effaith Fach/Gymedrol	- Nodi'r achos o ddiffyg cydymffurfio yn yr adroddiad arolygu. Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth gymryd camau i fynd i'r afael â'r achos o ddiffyg cydymffurfio - Yn achos lleoliad gofal plant a chwarae, mae'n debygol y nodir bod y thema arolygu berthnasol yn ddigonol/angen ei gwella - Mae'n bosibl y caiff arolygiad cynnar o'r gwasanaeth ei drefnu - Asesu'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r achos o ddiffyg cydymffurfio a'r canlyniadau sy'n deillio o hynny yn ystod yr arolygiad nesaf hwnnw	- Cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. - Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth gymryd camau i fynd i'r afael â'r achos o ddiffyg cydymffurfio o fewn cyfnod penodol o amser - Yn achos lleoliad gofal plant a chwarae, mae'n debygol y nodir bod y thema arolygu berthnasol yn wael - Caiff arolygiad â blaenoriaeth o'r gwasanaeth ei drefnu - Asesu'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r achos o ddiffyg cydymffurfio a'r canlyniadau sy'n deillio o hynny yn ystod yr arolygiad nesaf hwnnw

Effaith Fawr	• Cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. • Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth gymryd camau i fynd i'r afael â'r achos o ddiffyg cydymffurfio o fewn cyfnod penodol o amser • Caiff arolygiad â blaenoriaeth o'r gwasanaeth ei drefnu • Yn achos lleoliad gofal plant a chwarae, mae'n debygol y nodir bod y thema arolygu berthnasol yn wael • Asesu'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r achos o ddiffyg cydymffurfio a'r canlyniadau sy'n deillio o hynny yn ystod yr arolygiad nesaf hwnnw	• Opsiwn i gymryd camau gorfodi brys • Cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. • Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth gymryd camau i fynd i'r afael â'r achos o ddiffyg cydymffurfio o fewn cyfnod penodol o amser • Yn achos lleoliad gofal plant a chwarae, mae'n debygol y nodir bod y thema arolygu berthnasol yn wael • Trefnu cyfarfod â darparwr y gwasanaeth • Caiff arolygiad â blaenoriaeth o'r gwasanaeth ei drefnu • Asesu'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r achos o ddiffyg cydymffurfio a'r canlyniadau sy'n deillio o hynny yn ystod yr arolygiad nesaf hwnnw
---------------------	---	--

3.9 Caiff unrhyw benderfyniad gan yr arolygydd perthnasol ynghylch a yw mater diffyg cydymffurfio yn perthyn i gategori effaith fach/gymedrol neu effaith fawr ei wneud fesul achos ac ar sail y dystiolaeth sydd ar gael. Fodd bynnag, cyn dod i benderfyniad terfynol, byddwn yn adolygu unrhyw gamau arfaethedig sy'n deillio o gymhwyso'r fframwaith hwn. Mae hyn yn sicrhau bod ein penderfyniadau'n gyson.

4 Adnoddau sicrhau gwelliant a gorfodi

4.1 Mae amrywiaeth o adnoddau statudol ar gael i ni eu defnyddio i gefnogi ein proses gwella a gorfodi. Mae'r adnoddau a ddefnyddir mewn amgylchiadau penodol yn dibynnu ar y canlynol:

- y camau rydym yn cynnig eu cymryd;
- y ddeddfwriaeth berthnasol y caiff y darparwr ei reoleiddio oddi tani;
- difrifoldeb y materion neu'r risgiau a nodwyd;
- y cam a gyrhaeddwyd yn y broses gwella a gorfodi.

Hysbysiad gwella/hysbysiad o benderfyniad

4.2 Dim ond ar gyfer y gwasanaethau hynny a reoleiddir o dan Ddeddf 2016 y caiff hysbysiadau gwella eu defnyddio⁷. Cyhoeddir hysbysiad gwella pan fydd AGC yn cynnig cymryd unrhyw un o'r camau canlynol:

- Canslo cofrestriad y darparwr. Bydd hyn yn cynnwys yr holl wasanaethau rheoleiddiedig sy'n gysylltiedig ag amodau cofrestru'r darparwr hwnnw;
- Gosod amrywiad ar gofrestrriad y darparwr a dileu gwasanaeth neu wasanaethau rheoleiddiedig o amodau cofrestru'r darparwr hwnnw;
- Dileu man y mae'r darparwr yn darparu gwasanaeth rheoleiddiedig ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef;
- Canslo dynodiad yr unigolyn cyfrifol.

4.3 Mae'r hysbysiad gwella yn nodi'r camau arfaethedig a'r rhesymau dros gymryd camau o'r fath. Mae'n manylu ar y camau y mae'n rhaid i'r darparwr eu cymryd neu'r wybodaeth y mae'n rhaid iddo ei darparu o fewn cyfnod penodol o amser er mwyn ein bodloni na ddylid cymryd y camau gorfodi arfaethedig. Os bydd y darparwr yn dymuno herio ein rhesymau dros gymryd camau gweithredu, gall wneud sylwadau i ni o fewn y terfyn amser a bennwyd yn yr hysbysiad gwella.

4.4 Os byddwn yn fodlon bod y darparwr wedi cymryd y camau a bennwyd a/neu wedi darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn yr hysbysiad gwella, ac o fewn yr amserlenni gofynnol a bennwyd, byddwn yn hysbysu'r darparwr am ein penderfyniad i beidio â chymryd y camau gorfodi arfaethedig.

4.5 Os na fyddwn yn fodlon bod y darparwr wedi gwneud hynny:

- bydd ein hysbysiad o benderfyniad yn nodi ein bwriad i gymryd y camau gorfodi arfaethedig, y rhesymau dros wneud hynny ac unrhyw hawl i apelio; neu

⁷ O fis Ebrill 2018, bydd hyn yn berthnasol i gartrefi gofal, gwasanaethau cymorth cartref, gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd a gwasanaethau llety diogel. O fis Ebrill 2019, bydd hyn hefyd yn berthnasol i wasanaethau maethu, gwasanaethau mabwysiadu, gwasanaethau eirioli a gwasanaethau lleoli oedolion.

- efallai y byddwn yn estyn y cyfnod o amser i gymryd y camau a bennwyd. O dan Ddeddf 2016, ni allwn estyn y cyfnod o amser i ddarparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn yr hysbysiad gwella.

Hysbysiad o gynnig/hysbysiad o benderfyniad

4.6 Rhaid i ni gyflwyno hysbysiad o gynnig er mwyn cymryd camau gorfodi sy'n gwneud y canlynol:

- ar gyfer gwasanaethau a reoleiddir o dan Ddeddf 2016: yn amrywio amodau cofrestriad darparwr (ar wahân i'r amrywiadau hynny a restrir ym mharagraff 4.2); neu
- ar gyfer gwasanaethau a reoleiddir o dan Ddeddf 2000⁸: yn canslo'r cofrestriad, yn atal y cofrestriad neu'n estyn y cyfnod atal; neu'n amrywio, yn dileu neu'n gorfodi unrhyw amod ar gofrestrriad y darparwr.

4.7 Mae'r hysbysiad o gynnig yn nodi'r camau gorfodi rydym yn cynnig eu cymryd, y rhesymau dros wneud hynny a'r dyddiad arfaethedig ar gyfer eu cymryd (heb fod yn llai na 28 diwrnod ar ôl dyddiad cyflwyno'r hysbysiad). O dan Ddeddf 2016, mae'n bosibl y bydd yr hysbysiad o gynnig hefyd yn nodi'r camau y mae angen i'r darparwr eu cymryd er mwyn osgoi camau gorfodi yn y dyfodol.

4.8 Gall y darparwr wneud sylwadau i ni o fewn y terfyn amser a bennwyd a chaiff hyn ei ystyried cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol. Os na chaiff y sylwadau eu cadarnhau, cyhoeddir hysbysiad o benderfyniad yn nodi ein bwriad i gymryd y camau gorfodi arfaethedig, y rhesymau dros wneud hynny ac unrhyw hawl i apelio.

Hysbysiad o fwriad/hysbysiad o benderfyniad

4.9 O dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, byddwn yn cyhoeddi hysbysiad o fwriad os byddwn yn penderfynu cymryd unrhyw un o'r camau gorfodi canlynol:

- Gorfodi, amrywio neu ddileu amod sy'n gysylltiedig â chofrestriad
- Canslo cofrestriad

4.10 Mae'r hysbysiad o fwriad yn nodi'r camau gorfodi rydym yn cynnig eu cymryd, y rhesymau dros wneud hynny a'r terfyn amser (heb fod yn llai na 28 diwrnod ar ôl dyddiad cyflwyno'r hysbysiad). Gall y darparwr wneud sylwadau i ni o fewn y terfyn amser a bennwyd a chaiff hyn ei ystyried cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol. Os na chaiff y sylwadau eu cadarnhau, cyhoeddir hysbysiad o

⁸Bydd hyn yn berthnasol i'r gwasanaethau hynny sydd wedi'u cofrestru o dan Ddeddf 2000 ond nad ydynt wedi'u cofrestru o dan Ddeddf 2016 eto, h.y. gwasanaethau maethu, gwasanaethau mabwysiadu, gwasanaethau eirioli a gwasanaethau lleoli oedolion.

benderfyniad yn nodi ein bwriad i gymryd y camau gorfodi arfaethedig, y rhesymau dros wneud hynny ac unrhyw hawl i apelio.

Hysbysiad Gorfodi

4.11 O dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, byddwn yn cyflwyno hysbysiad i unrhyw un y credwn ei fod yn gweithredu fel gwarchodwr plant heb gofrestriad. Mae'r hysbysiad yn weithredol am flwyddyn o'r dyddiad y caiff ei gyflwyno. Mae'r hysbysiad yn rhoi gwybod i'r person y bydd yn cyflawni trosedd os bydd yn gweithredu fel gwarchodwr plant heb gofrestriad, a heb esgus rhesymol, yn ystod y cyfnod hwnnw o amser, ac y gallai gael ei erlyn.

Materion y mae angen cymryd camau brys yn eu cylch

4.12 Byddwn yn ystyried cymryd camau gorfodi brys yn yr amgylchiadau canlynol:

- ar gyfer gwasanaethau a reoleiddir o dan Ddeddf 2016: caiff risg ddifrifol i fywyd, iechyd corfforol neu iechyd meddwl person ei nodi a/neu os yw person yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso.
- ar gyfer gwasanaethau a reoleiddir o dan Ddeddf 2000: caiff risg ddifrifol i fywyd, iechyd neu lesiant person ei nodi; neu
- ar gyfer gwasanaethau a reoleiddir o dan Fesur 2010: mae plentyn yn debygol o gael niwed sylweddol

Yn yr amgylchiadau hyn efallai y byddwn yn penderfynu cymryd camau gorfodi ar unwaith. Gallai hyn gynnwys:

- Ceisio canslo cofrestriad darparwr neu ei amrywio i ddileu amod (o dan Ddeddf 2016) neu ganslo cofrestriad darparwr ar frys (o dan Ddeddf 2000). Mewn achosion o'r fath, byddwn yn cyflwyno cais i'r ynad heddwch. Dim ond os bydd yr ynad heddwch yn fodlon ar ein rhesymau dros gyflwyno'r cais y bydd yn cyflwyno gorchymyn. Daw gorchymyn yr ynad heddwch i rym cyn gynted ag y caiff ei wneud neu ar adeg sy'n briodol ym marn yr ynad heddwch.
- Gwneud cais am amrywiad brys i gofrestriad, gan gynnwys amrywio neu orfodi amod (o dan Ddeddf 2000 a Deddf 2016). Cyflwynir hysbysiad o benderfyniad a ddaw i rym ar ddiwrnod ei gyflwyno. Mae'r hysbysiad o benderfyniad yn egluro'r camau gorfodi a gymerwyd, y rhesymau dros wneud hynny ac unrhyw hawl i apelio.
- Gorfodi, amrywio neu ddileu amodau cofrestru ar frys o dan Fesur 2010. Cyflwynir hysbysiad o benderfyniad sy'n nodi'r camau gorfodi, y rhesymau, y dyddiad dod i rym ac unrhyw hawl i apelio.

- Atal cofrestriad unigolyn o dan Fesur 2010⁹. Cyflwynir hysbysiad o benderfyniad sy'n nodi'r camau gorfodi, y rhesymau, y cyfnod atal ac unrhyw hawl i apelio. Caiff cofrestriad unigolyn ei atal o'r dyddiad a, lle bo angen, yr amser a bennwyd yn yr hysbysiad. Gall hyn fod ar unwaith. Ni all y cyfnod atal fod yn fwy na chwe wythnos o hyd. Mewn amgylchiadau eithriadol, mae'n bosibl estyn y cyfnod atal, am yr un rheswm, ond am gyfnod hwy na 12 wythnos gyda'i gilydd mewn unrhyw gyfnod o 12 mis fel arfer.

4.13 Pan fyddwn yn cymryd camau gorfodi brys mewn ymateb i bryder brys neu ddigwyddiad difrifol, fel arfer caiff ein penderfyniadau eu rhoi ar waith ar unwaith. Mae gan ddarparwyr yr hawl i apelio yn erbyn y defnydd o gamau gorfodi brys ond nid yw hyn yn atal y camau rhag cael eu rhoi ar waith ar unwaith.

Canslo cofrestriad yn wirfoddol

4.14 Gall unrhyw ddarparwr gwasanaeth wneud cais i ganslo ei gofrestrriad yn wirfoddol, ond gellir gwrthod unrhyw gais o'r fath os byddwn eisoes wedi rhoi camau gorfodi ar waith er mwyn canslo cofrestriad y darparwr hwnnw.

4.15 Ar gyfer gwasanaethau a reoleiddir o dan Ddeddf 2016, unwaith y caiff penderfyniad ei wneud gan y panel gwella a gorfodi lleol neu genedlaethol i gymryd camau i ganslo cofrestriad darparwr, ystyrir mai'r penderfyniad hwnnw yw pwynt cychwyn y camau gorfodi. Gallwn wrthod unrhyw geisiadau a wneir wedi hynny i ganslo cofrestriad yn wirfoddol. Yn y sefyllfaoedd hyn rhoddir gwybod i'r darparwr am benderfyniad y panel gwella a gorfodi lleol neu genedlaethol cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol, a chaiff Hysbysiad Gwella ei gyflwyno wedi hynny.

4.16 Ar gyfer gwasanaethau a reoleiddir o dan Ddeddf 2000, ni all darparwr wneud cais i ganslo ei gofrestrriad yn wirfoddol os yw wedi cael Hysbysiad o Gynnig neu Hysbysiad o Benderfyniad i ganslo ei gofrestrriad.

4.17 Ar gyfer gwasanaethau a reoleiddir o dan Fesur 2010, unwaith y caiff Hysbysiad o Fwriad i ganslo cofrestriad y darparwr ei gyflwyno, ni allwn dderbyn unrhyw geisiadau i ganslo'r cofrestriad yn wirfoddol wedi hynny.

4.18 Os bydd darparwr yn dymuno herio ein rhesymau dros wrthod cais i ganslo ei gofrestrriad yn wirfoddol, gall wneud sylwadau i ni o fewn y terfyn amser a bennwyd yn yr hysbysiad perthnasol (gweler Pennod 6).

⁹ O dan y rheoliadau a wnaed o dan Fesur 2010, Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010.

5 Camau Gorfodi Troseddol

5.1 Mae'n drosedd i ddarparwr fethu â chydymffurfio â darpariaethau penodol a bennir mewn deddfwriaeth neu reoliadau. Yn yr amgylchiadau hyn, gall darparwr wynebu camau gorfodi troseddol. Ceir rhestr gryno o droseddau deddfwriaethol a rheoliadol [ar ein gwefan](#).

5.2 Caiff camau gorfodi troseddol eu cymryd yn erbyn unrhyw ddarparwr cofrestredig a/neu unigolyn cyfrifol dynodedig (yn dibynnu ar y ddeddfwriaeth berthnasol) neu berson/darparwr sy'n cynnal gweithgarwch rheoleiddiedig heb gofrestrriad i wneud hynny. Caiff camau gorfodi troseddol hefyd eu cymryd yn erbyn unrhyw berson sy'n ein rhwystro rhag cynnal arolygiad ac yn erbyn personau cofrestredig neu bersonau heb eu cofrestru os byddant wedi gwneud datganiad anwir neu gamarweiniol mewn unrhyw gais i ni.

Canfod ffeithiau

5.3 Gall fod yn briodol cynnal adolygiad canfod ffeithiau os down yn ymwybodol o ddigwyddiadau a all olygu bod trosedd wedi'i chyflawni o dan y ddeddfwriaeth. Mae'r adolygiad canfod ffeithiau yn ein galluogi i ganfod y ffeithiau ac i ystyried a oes gennym dystiolaeth i gredu bod trosedd wedi'i chyflawni.

5.4 Fel arfer, caiff adolygiad ei gyfyngu i archwilio cofnodion perthnasol mewn perthynas â'r digwyddiad(au) dan sylw. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd adegau pan fydd gwybodaeth arall yn dod i'r amlwg yn ystod yr adolygiad, y bydd angen ei hystyried hefyd. Ni fydd yr adolygiad fel arfer yn cynnwys cymryd datganiadau gan unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth nac aelodau o'r cyhoedd, ond mae'n bosibl y bydd adegau pan fydd angen gwneud hyn, er enghraifft pan fydd honiad bod gwasanaeth yn gweithredu heb gofrestrriad.

5.5 Os bydd digon o dystiolaeth i'n darbwyllo bod trosedd wedi'i chyflawni caiff ymchwiliad troseddol ei gynnal.

Ymchwiliad troseddol

5.6 Caiff pob ymchwiliad i drosedd ei gynnal yn unol â *Chodau Ymarfer [Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996 \(CPIA\)](#) a [Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984](#)* (PACE).

5.7 Caiff cylch gwaith unrhyw ymchwiliad troseddol, gan gynnwys gyda phwy y byddwn yn cyfathrebu neu bwy y byddwn yn ei gynnwys yn yr ymchwiliad, ei bennu gan ein Panel Gwella a Gorfodi Cenedlaethol. Pan fydd ymchwiliad troseddol yn cael ei gynnal o ganlyniad i atgyfeiriad amddiffyn plant neu oedolion,

mae'n bosibl y byddwn yn cynllunio'r ymchwiliad hwnnw gyda phartïon eraill â diddordeb, er enghraifft yr heddlu a/neu wasanaethau cymdeithasol. Caiff pob ymchwiliad troseddol ei fonitro gan Banel Gwella a Gorfodi Cenedlaethol AGC.

5.8 Caiff ymchwiliad troseddol ei gynnal er mwyn canfod a oes tystiolaeth i awgrymu'r canlynol:

- a) Mae person/darparwr yn gweithredu heb gofrestriad, ac:
 - i. Mae pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth wedi dioddef niwed (effaith ddifrifol ar fywyd, iechyd neu lesiant person);
 - ii. Bu ymddygiad tebyg yn flaenorol;
 - iii. Mae'r person/darparwr wedi diystyru'r gofyniad i gofrestru yn llwyr;
 - iv. Mae'r person/darparwr wedi darparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol i'r cyhoedd neu AGC yn fwriadol.
- b) Bu achos o ddiffyg cydymffurfio a arweiniodd at niwed sylweddol i unigolyn/unigolion **ac** mae tystiolaeth i awgrymu y gellir priodoli'r achos o ddiffyg cydymffurfio i ymddygiad neu ddiffyg gweithredu darparwr cofrestredig a/neu unigolyn cyfrifol dynodedig (yn dibynnu ar y ddeddfwriaeth berthnasol).

Hysbysiad cosb

5.9 O dan Ddeddf 2016, gellir cyflwyno hysbysiad cosb yn lle dwyn erlyniad. Mae talu cosb yn galluogi'r darparwr cofrestredig a/neu'r unigolyn cyfrifol dynodedig i osgoi cael ei erlyn am drosedd. Nid oes rhwymedigaeth ar y darparwr cofrestredig na'r unigolyn cyfrifol dynodedig i dalu'r swm o dan yr hysbysiad cosb. Fodd bynnag, yn yr achosion hynny gallwn argymhell i Lywodraeth Cymru y dylid ei erlyn.

5.10 Mae'r troseddau rhagnodedig y gellir cyflwyno hysbysiad cosb ar eu cyfer a swm y gosb ar gyfer pob trosedd wedi'u nodi yn yr Atodlen o droseddau rhagnodedig i [Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig \(Hysbysiadau Cosb\) \(Cymru\) 2019](#)

Erlyniad

5.11 AGC sy'n gyfrifol am argymhell i Lywodraeth Cymru y dylai ystyried cynnal erlyniad. Y Cwnsler Cyffredinol fydd yn penderfynu a ddylid cynnal erlyniad, ar ran Llywodraeth Cymru. Caiff y penderfyniad hwn ei wneud yn unol â [Chod Erlyn](#) Llywodraeth Cymru.

5.12 Gall y Cwnsler Cyffredinol benderfynu gwneud y canlynol:

- cyflwyno **rhybudd syml** er mwyn sicrhau bod cofnod ffurfiol o drosedd pan fydd darparwr cofrestredig a/neu unigolyn cyfrifol dynodedig wedi syrthio ar ei fai ond na chaiff ei erlyn;
- cyflwyno **hysbysiad cosb** o dan Ddeddf 2016 (gweler yr adran uchod); neu

- **dwyn erlyniad** ar gyfer rhai o'r troseddau neu bob un ohonynt; neu
- **peidio â dwyn achos troseddol** ond ystyried dull gweithredu amgen, h.y. ein camau gorfodi sifil.

Gwasanaeth sy'n gweithredu heb gofrestriad

5.13 Mae'n drosedd darparu gwasanaeth neu wasanaethau rheoleiddiedig yng Nghymru heb gofrestru â ni. Cyfrifoldeb darparwr yw gwneud cais i gofrestru â ni. Os bydd rheswm rhesymol dros gredu bod darparwr yn gweithredu'n anghyfreithlon, byddwn yn ystyried ein dull gorfodi. Gallai hyn gynnwys, ymhlith pethau eraill, cynghori'r darparwr i gofrestru (yn achos gweithrediad anfwriadol) neu gymryd camau gorfodi troseddol.

5.14 Os penderfynir ei bod yn ofynnol i'r gwasanaeth dan sylw fod wedi'i gofrestru, rhoddir gwybod i'r darparwr ei fod yn wynebu'r risg o gael ei erlyn os bydd yn parhau i weithredu heb gofrestriad.

6 Sylwadau ac apeliadau

Sylwadau

6.1 Gall darparwyr cofrestredig a/neu unigolion cyfrifol dynodedig gyflwyno sylwadau i ni am fathau penodol o gamau gorfodi. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Hysbysiad gwella
- Hysbysiad o gynnig i amrywio amodau cofrestriad darparwr (o dan Ddeddf 2016)
- Hysbysiad o gynnig i ganslo'r cofrestriad, atal y cofrestriad neu estyn y cyfnod atal; neu i amrywio, dileu neu osod unrhyw amod ar gofrestrriad y darparwr (o dan Ddeddf 2000)
- Hysbysiad o fwriad i osod, amrywio neu ddileu amod sy'n gysylltiedig â chofrestriad; neu ganslo cofrestriad (o dan Fesur 2010).

6.2 Gall yr amserlen a bennir yn yr hysbysiad ar gyfer cyflwyno sylwadau amrywio yn dibynnu ar y math o hysbysiad a gyflwynir. Er enghraifft, rhaid i sylwadau o ganlyniad i hysbysiad o gynnig gael eu cyflwyno fewn 28 diwrnod i ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad hwnnw.

6.3 Gellir cyflwyno sylwadau yn ysgrifenedig neu ar lafar, a dylid darparu unrhyw dystiolaeth ategol ychwanegol i'w cefnogi. Gall methu â darparu'r dystiolaeth ategol ychwanegol hon effeithio ar ein hymateb neu achosi oedi.

6.4 Pan fydd sylwadau'n dod i law, byddwn yn penodi swyddog gwneud penderfyniadau a fydd yn dod i benderfyniad yn eu cylch. Mae'r swyddog gwneud penderfyniadau ar yr un radd â'r arolygydd a lofnododd yr hysbysiad, neu radd uwch, ac ni fydd wedi bod yn rhan o'r penderfyniad gwreiddiol.

6.5 Ein nod yw ymateb o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau (nid 28 diwrnod ar ôl i'r sylwadau ddod i law.) Fodd bynnag, ar gyfer gwasanaethau a reoleiddir o dan Ddeddf 2016, os na allwn ymateb o fewn 28 diwrnod, byddwn yn rhoi gwybod i dderbynnydd yr hysbysiad. Mewn achosion o'r fath, byddwn yn dod i benderfyniad ac yn ymateb o fewn 56 diwrnod i'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau, ac yn egluro'r rheswm dros yr oedi.

Apeliadau i dribiwnlysoedd

6.6 Mae gan ddarparwyr cofrestredig a/neu unigolion cyfrifol dynodedig yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf ar gyfer y canlynol:

- Unrhyw hysbysiad o benderfyniad a gyflwynwyd, gan gynnwys y rheini a gyflwynwyd o dan weithdrefnau brys

- Unrhyw benderfyniad i ganslo cofrestriad darparwr neu amrywio cofrestriad i ddileu amod (o dan Ddeddf 2016) neu ganslo cofrestriad darparwr ar frys (o dan Ddeddf 2000) yn dilyn penderfyniad gan yr ynad heddwch.

6.7 Rhaid i apêl gael ei gwneud o fewn 28 diwrnod i ddyddiad cyflwyno'r hysbysiad o benderfyniad, fan bellaf. Fodd bynnag, gall y Tribiwnlys ganiatáu apêl ar ôl y cyfnod hwn os yw'n fodlon bod rhesymau da dros fethu ag apelio o fewn y cyfnod o 28 diwrnod.

6.8 Mae pwerau'r Tribiwnlys yn dibynnu ar y ddeddfwriaeth y caiff apêl ei gwneud oddi tani. Fel arfer, mae'r pwerau hyn yn cynnwys:

- cadarnhau ein penderfyniad;
- cyfarwyddo na ellir cymryd y cam gweithredu;
- pennu cam gweithredu amgen; neu
- gwneud unrhyw orchymyn arall (er enghraifft gorchymyn interim i atal effaith y penderfyniad am gyfnod) fel y gwêl y Tribiwnlys yn briodol mewn perthynas â chofrestriad y darparwr.

6.9 Nid oes hawl i apelio i Dribiwnlys mewn perthynas â hysbysiadau diffyg cydymffurfio, hysbysiadau cosb na chollfarn yn dilyn erlyniad am drosedd.

6.10 Gofynnir i'r darparwr cofrestredig a/neu'r unigolion cyfrifol dynodedig (yn dibynnu ar y ddeddfwriaeth) roi gwybod i ni am unrhyw apeliadau a wneir.

7 Gwybodaeth

7.1 Y ddealltwriaeth a'r wybodaeth sydd gennym yw un o'n hasedau pwysicaf. Mae'n sicrhau bod y penderfyniadau a wnawn a'r cyngor a roddwn yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn.

7.2 Drwy ein prosesau cofrestru ac arolygu, rydym yn casglu ac yn cadw llawer o wybodaeth am ddarparwyr, yn ogystal â gwybodaeth a gafwyd gan ffynonellau gwybodaeth eraill. Mae'r wybodaeth werthfawr hon yn ein helpu i asesu a yw darparwr cofrestredig a/neu unigolion cyfrifol dynodedig (yn dibynnu ar y ddeddfwriaeth) yn cydymffurfio â'u cyfrifoldebau deddfwriaethol a rheoliadol.

7.3 Felly, mae'r wybodaeth a ddefnyddiwn yn darparu'r sail hanfodol i'n penderfyniadau gorfodi ac yn ffurfio'r sail dystiolaeth y byddwn yn dibynnu arni os caiff ein camau gorfodi eu herio.

7.4 Weithiau, mae'n bosibl y byddwn yn cael ceisiadau i ryddhau gwybodaeth sy'n ymwneud ag achos neu ddarparwr unigol. Mae gan unrhyw unigolyn yr hawl i wneud cais am wybodaeth a gofnodwyd gennym, ac, yn amodol ar ofynion statudol deddfwriaeth ynghylch trin gwybodaeth, i gael copi o'r wybodaeth hon.

7.5 Er mwyn sicrhau bod y wybodaeth gywir ar gael ar yr adeg gywir, a'n bod yn cadarnhau'r gofynion statudol sy'n ofynnol gennym, rydym yn gwneud y canlynol:

- Diogelu'r wybodaeth sydd gennym, yn unol â gweithdrefnau Llywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau safonau uchel o ran diogelu gwybodaeth a data.
- Storio ein gwybodaeth yn y ffordd gywir, gan ddilyn egwyddorion [rheoli cofnodion Llywodraeth Cymru](#).
- Ymateb i geisiadau am wybodaeth yn unol â'r prosesau a'r amserlenni a sefydlwyd sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith¹⁰.
- Rhannu gwybodaeth yn briodol ac mewn modd cyfreithlon, er mwyn gwella ac aildefnyddio ein gwybodaeth, gweithio ar y cyd a lleihau achosion o ddyblygu.

7.6 Mae ein Hysbysiad Preifatrwydd¹¹ yn crynhoi'r ffordd rydym yn ymdrin â phob math o wybodaeth bersonol a gasglwn. Mae hyn yn cynnwys y sail gyfreithiol ar gyfer casglu'r wybodaeth hon, y ffordd y caiff y wybodaeth ei phrosesu, am ba hyd y caiff ei chadw, pwy y gellir ei rhannu â nhw, beth yw eich hawliau mewn

¹⁰ Mae pedair cyfraith yn rheoli ein dull o fynd i'r afael â cheisiadau am wybodaeth, sef Deddf Diogelu Data 1998, Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliad Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

¹¹ <https://arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol>

perthynas â'r wybodaeth a'r cysylltiadau perthnasol y gallai fod eu hangen arnoch.

7.7 Mewn rhai achosion, gall AGC gynnal neu gymryd rhan mewn arolygiad ar y cyd â chyrff neu asiantaethau rheoleiddiol eraill, fel yr Heddlu neu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Mae'n hanfodol y caiff gwybodaeth ei rhannu â'r asiantaethau neu'r cyrff rheoleiddiol hyn er mwyn sicrhau y caiff gwybodaeth ac adnoddau eu defnyddio'n effeithiol. Yn y sefyllfaoedd hyn, rydym yn rhannu gwybodaeth yn unol â'r gofynion statudol sydd arnom.

7.8 Mae gan AGC gyfrifoldeb i rannu gwybodaeth â'r cyhoedd er mwyn sicrhau bod unigolion sy'n cael gwasanaethau llety, neu wasanaethau a gomisiynwyd i'w cefnogi yn eu bywyd bob dydd, yn ymwybodol o unrhyw risg y gallent fod yn ei hwynebu. Felly, pan fyddwn yn nodi gwasanaeth sy'n peri pryder/darparwr sy'n peri pryder, byddwn yn rhoi gwybod i'r cyrff comisiynu perthnasol ac unrhyw gyrff rheoleiddio eraill fel sy'n ofynnol yn ôl y ddeddfwriaeth.

8 Cyfathrebu a chyhoeddi

8.1 Pan gaiff darparwr ei arolygu, caiff gwybodaeth am achosion o ddiffyg cydymffurfio ac unrhyw gamau gorfodi dilynol eu cynnwys yn ein hadroddiadau arolygu. Caiff y rhain eu cyhoeddi ar ein [gwefan](#).

8.2 Pan fydd angen diogelu unigolion sy'n agored i niwed rhag y risg o niwed, byddwn yn rhannu gwybodaeth am ein camau gorfodi â chyrff perthnasol, e.e. comisiynwyr, mewn modd cyfreithlon.

8.3 Ar gyfer gwasanaethau a reoleiddir o dan Ddeddf 2016, rhaid i ni roi gwybod i awdurdodau lleol am unrhyw gamau gorfodi yn erbyn darparwr sy'n arwain at y canlynol:

- Canslo cofrestriad y darparwr;
- Amrywio cofrestriad darparwr drwy ddileu gwasanaeth neu wasanaethau rheoleiddiedig neu ddileu man y mae'r darparwr yn darparu gwasanaeth rheoleiddiedig ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef;
- Gorchymyn gan yr ynad heddwch i ganslo neu amrywio cofrestriad ar frys drwy ddileu gwasanaeth neu fan (mae hyn yn berthnasol i wasanaethau a reoleiddir o dan Ddeddf 2000 hefyd);
- Canslo cofrestriad unigolyn cyfrifol dynodedig;
- Dwyn achos troseddol yn erbyn person;
- Cyflwyno hysbysiad cosb.

8.4 Ar gyfer darparwyr a reoleiddir o dan Fesur 2010, rhaid i ni roi gwybod i awdurdod lleol yr ardal lle roedd y darparwr yn gweithredu am unrhyw gamau gorfodi sy'n arwain at y canlynol:

- Atal cofrestriad person;
- Canslo cofrestriad.

8.5 Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn penderfynu rhoi gwybod i randdeiliaid eraill am unrhyw gamau gorfodi a gymerwyd gennym. Caiff hyn ei benderfynu fesul achos ac mae'n cynnwys y canlynol, ymhlith eraill:

- Unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr/eiriolwyr
- Comisiynwyr y GIG
- Gweinidogion Cymru
- Asiantaethau ac arolygiaethau eraill, e.e. y Comisiwn Ansawdd Gofal, y Gwasanaeth Tân
- Gofal Cymdeithasol Cymru, Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd, y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, y Cyngor Meddygol Cyffredinol, ac ati.

8.6 O dan Ddeddf 2016, rhaid i ni gynnal cofrestr darparwyr. Caiff y gofrestr hon ei chyhoeddi ar ein gwefan ac mae'n nodi manylion cofrestriadau, gan gynnwys unrhyw amodau a osodwyd ar y cofrestriad ac unrhyw gamau gorfodi a gymerwyd.

9 Y derminoleg a ddefnyddir yn y Polisi hwn

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Rheoleiddiwr annibynnol gofal cymdeithasol a gofal plant. Rydym yn cofrestru, yn arolygu ac yn gweithredu i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er llesiant pobl Cymru.

Cod Ymarfer ar gyfer Arolygu

Disgrifiad lefel uchel o'r modd y cynhelir arolygiad o wasanaethau rheoleiddiedig, yn unol â gofynion Deddf 2016 a rheoliadau cysylltiedig.

Chwythwr Chwiban

Rhywun sy'n codi mater o bryder cyhoeddus ynghylch camwedd, risg neu gamarfer y mae'n ymwybodol ohono drwy ei waith. Caiff chwythwyr chwiban eu diogelu gan y gyfraith, rhag cael eu cam-drin neu rhag cael eu diswyddo wrth chwythu'r chwiban.

Cydymffurfiaeth

Pan fydd darparwr neu unigolyn cyfrifol dynodedig (yn dibynnu ar y ddeddfwriaeth) yn bodloni'r gofynion a osodir arno gan y gyfraith, neu, i'r gwrthwyneb, pan na fydd yn bodloni'r gofynion hynny.

Diogelu

Term cyffredinol ar gyfer camau a gymerir i hyrwyddo lles plant ac oedolion sy'n agored i niwed a'u diogelu rhag cael eu hesgeuluso, eu cam-drin a rhag achosion o gam-fanteisio arnynt.

Gorfodi

Y camau y byddwn yn eu cymryd i orfodi darparwr cofrestredig neu unigolyn cyfrifol dynodedig (yn dibynnu ar y ddeddfwriaeth) i gydymffurfio â'r gyfraith.

Gwasanaeth sy'n peri pryder/darparwr sy'n peri pryder

Dynodiad o fewn AGC ar gyfer gwasanaethau a darparwyr y mae eu gweithrediadau'n peri pryder ac y mae angen i AGC graffu'n agosach arnynt o ganlyniad i hynny.

Llesiant

Mae'n cyfeirio'n eang at gyflwr person sy'n iach, yn hapus, yn ddiogel ac yn fodlon ei fyd.

Pryderon

Materion y rhoddwyd gwybod i AGC amdanynt sy'n ymwneud â diogelwch, llesiant neu hawliau'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Rheoleiddiwr

Sefydliad a sefydlwyd gan y llywodraeth i oruchwylio maes gweithgarwch masnachol neu gymdeithasol, drwy reolau a rheoliadau.

Fframwaith Rheoleiddio

Nodir isod y gofynion deddfwriaethol a rheoliadol a ddefnyddir gan AGC wrth reoleiddio darparwyr gofal cymdeithasol a gofal plant. Rhaid i'r darparwyr hyn fodloni'r gofynion hyn er mwyn darparu gwasanaeth gofal yng Nghymru. Mae AGC yn cymryd camau gorfodi lle nad ydynt yn cydymffurfio â'r gyfraith.

Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau cartrefi gofal, gwasanaethau llety diogel, gwasanaethau preswyl i deuluoedd, gwasanaethau cymorth cartref, gwasanaethau mabwysiadu, gwasanaethau maethu, gwasanaethau lleoli oedolion a gwasanaethau eirioli gael eu rheoleiddio gan AGC. Mae'r rheoliadau a'r canllawiau canlynol yn berthnasol i'r darparwyr hyn:

- [Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig \(Cofrestru\) \(Cymru\) 2017](#)
- [Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig \(Datganiadau Blynnyddol\) \(Cymru\) 2017](#)
- [Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig \(Datganiadau Blynnyddol a Chofrestru\) \(Cymru\) \(Diwygio\) 2019](#)
- [Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig \(Hysbysiadau Cosb\) \(Cymru\) 2019](#)
- [Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig \(Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol\) \(Cymru\) 2017](#)
- [Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig \(Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol\) \(Cymru\) \(Diwygio\) 2019](#)
- [Canllawiau statudol ar gyfer darparwyr ac unigolion cyfrifol gwasanaethau cartrefi gofal a chymorth cartref](#)
- [Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Rheoleiddiedig \(Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol\) \(Cymru\) 2019](#)
- [Canllawiau statudol ar gyfer darparwyr ac unigolion cyfrifol gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig](#)
- [Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion \(Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol\) \(Cymru\) 2019](#)
- [Canllawiau statudol ar gyfer darparwyr ac unigolion cyfrifol gwasanaethau lleoli oedolion](#)
- [Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli Rheoleiddiedig \(Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol\) \(Cymru\) 2019](#)
- [Canllawiau statudol ar gyfer darparwyr ac unigolion cyfrifol gwasanaethau eirioli rheoleiddiedig](#)
- [Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Rheoleiddiedig \(Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol\) \(Cymru\) 2019](#)

- [Canllawiau statudol ar gyfer darparwyr ac unigolion cyfrifol gwasanaethau maethu rheoleiddiedig](#)

Mae'r ddeddfwriaeth a'r codau ymarfer canlynol hefyd yn berthnasol i ddarparwyr gwasanaethau mabwysiadu a maethu a reoleiddir a/neu a arolygir gan AGC:

- [Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002](#)
- [Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu \(Cymru\) 2005](#)
- [Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu \(Cymru\) \(Diwygio\) 2012](#)
- [Rheoliadau Gwybodaeth Mabwysiadu a Gwasanaethau Cyfryngol \(Mabwysiadu Cyn-gychwyn\) \(Cymru\) 2005](#)
- [Rheoliadau Gwybodaeth Mabwysiadu a Gwasanaethau Cyfryngol \(Mabwysiadu Cyn-gychwyn\) \(Cymru\) \(Diwygio\) 2005](#)
- [Rheoliadau Mabwysiadu ag Eifen Dramor 2005](#)
- [Rheoliadau Mynediad i Wybodaeth \(Mabwysiadu Ôl-gychwyn\) \(Cymru\) 2005](#)
- [Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol \(Mabwysiadu\) \(Cymru\) 2006](#)
- [Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol \(Mabwysiadu a Maethu\) \(Cymru\) 2010](#)
- [Rheoliadau Cyfyngiadau ar Baratoi Adroddiadau Mabwysiadu 2005](#)
- [Rheoliadau'r Gofrestr Plant Mabwysiedig a'r Gofrestr Cyswllt Mabwysiadu 2005](#)
- [Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol \(Diwygio\) 2005](#)
- [Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu \(Cymru\) 2019](#)
- [Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu \(Awdurdodau Lleol\) \(Cymru\) 2005](#)
- [Rheoliadau Awdurdodau Lleol \(Ffioedd Rhagnodedig\) \(Mabwysiadu gydag Eifen Dramor\) \(Cymru\) 2005](#)
- [Rheoliadau Paneli Maethu \(Sefydlu a Swyddogaethau\) \(Cymru\) 2018](#)
- [Cod ymarfer ar gyfer gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol](#)
- [Cod ymarfer ar gyfer gwasanaethau maethu awdurdodau lleol](#)

Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i warchodwyr plant a darparwyr gofal dydd a chwarae gael eu rheoleiddio gan AGC. Mae'r rheoliadau a'r canllawiau canlynol yn berthnasol i'r darparwyr hyn:

- [Gorchymyn Rheoleiddio Gwarchod Plant a Gofal Dydd \(Cymru\) 2016](#)
- [Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd \(Cymru\) 2010](#)
- [Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd \(Arolygu a Gwybodaeth ar gyfer Awdurdodau Lleol\) \(Cymru\) 2010](#)
- [Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd \(Cymru\) 2010](#)
- [Gorchymyn Mesur Plant a Theuluoedd \(Cymru\) 2010 \(Cychwyn Rhif 2, Arbedion a Darpariaethau Trosiannol\) \(Diwygio\) a \(Diwygiad Canlyniadol\) 2011](#)

- [Mesur Plant a Theuluoedd \(Cymru\) 2010](#)
- [Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd \(Anghymhwyso\) \(Cymru\) 2010](#)
- [Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed](#)

Atodiad B

Troseddau Deddfwriaethol a Rheoliadol

Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

- Adran 43(1) methu â chydymffurfio ag unrhyw amod sy'n ymwneud â chofrestriad y darparwr sydd mewn grym am y tro.
- Adran 44(1) bwriad i dwyllo person arall drwy (a) esgus bod yn ddarparwr gwasanaeth, (b) esgus bod man yn un y mae gwasanaeth rheoleiddiedig yn cael ei ddarparu ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef, neu (c) esgus bod yn unigolyn cyfrifol.
- Adran 45 methiant gan ddarparwr gwasanaeth i gydymffurfio â gofynion mewn rheoliadau a wneir o dan adran 27 neu 37(2)(a).
- Adran 46 methiant gan unigolyn cyfrifol i gydymffurfio â gofynion mewn rheoliadau a wneir o dan adran 28.
- Adran 47 gwneud datganiad y mae'r person yn gwybod ei fod yn anwir neu'n gamarweiniol mewn ffordd berthnasol mewn (a) cais i gofrestru fel darparwr gwasanaeth, (b) cais i amrywio neu i ganslo cofrestriad, (c) datganiad blynyddol a gyflwynir o dan adran 10, neu (d) ymateb i ofyniad a osodir gan Weinidogion Cymru o dan adran 32(1).
- Adran 48 methu â chyflwyno datganiad blynyddol i Weinidogion Cymru o fewn y terfyn amser a ragnodir o dan adran 10(4).
- Adran 49 methu â chydymffurfio â gofyniad a osodir ar y person gan Weinidogion Cymru o dan adran 32(1) (i ddarparu gwybodaeth).

- Adran 50 mynd ati'n fwriadol i rwystro arolygydd rhag arfer unrhyw swyddogaeth a roddir i arolygydd (o dan Bennod 3) neu fethu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad a osodir ar y person gan arolygydd sy'n arfer swyddogaeth o'r fath.

Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017¹²

Troseddau – darparwyr gwasanaethau – Rheoliad 85

(1) Mae'n drosedd i ddarparwr gwasanaeth fethu â chydymffurfio â gofyniad unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a bennir ym mharagraff (2).

(2) Y darpariaethau a bennir at ddibenion paragraff (1) yw darpariaethau rheoliadau 7(3), 7(5), 11(3), 12(1), 12(2), 19(1), 19(2), 19(3), 20(1), 35(1), 38(1), 59(1), 59(2), 59(3), 60(1), 60(2), 60(4), 61(3) a 62(3).

(3) Mae darparwr gwasanaeth yn cyflawni trosedd os yw'r darparwr yn methu â chydymffurfio â gofyniad unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a bennir ym mharagraff (4) a bod methiant o'r fath yn arwain at:

- (a) niwed y gellir ei osgoi (pa un ai o natur gorfforol neu seicolegol) i unigolyn,
- (b) unigolyn yn cael ei wneud yn agored i risg sylweddol o niwed o'r fath, neu
- (c) yn achos dwyn, camddefnyddio neu gamberchnogi arian neu eiddo, unrhyw golled gan unigolyn o'r arian neu'r eiddo o dan sylw.

(4) Y darpariaethau a bennir at ddibenion paragraff (3) yw darpariaethau rheoliadau 6, 7(1), 12(5), 14(1), 14(3), 15(1), 15(3), 15(5), 16(1), 16(5), 18(1), 18(6), 18(7), 21(1), 21(2), 22, 26, 33(1), 34(1), 34(2) a 34(3).

Troseddau – Unigolion Cyfrifol – Rheoliad 86

(1) Mae'n drosedd i'r unigolyn cyfrifol fethu â chydymffurfio â gofyniad unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a bennir ym mharagraff (2).

(2) Y darpariaethau a bennir at ddibenion paragraff (1) yw darpariaethau rheoliadau 67(1), 68(1), 71(1), 71(2), 73(1), 73(2), 73(3), 74(1), 74(2), 75(1), 80(4), 81(1), 84(1) a 84(3).

Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019

Troseddau – Darparwyr Gwasanaethau – Rheoliad 54

(1) Mae'n drosedd i ddarparwr gwasanaeth fethu â chydymffurfio â gofyniad unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a bennir ym mharagraff (2).

¹²Fel y'u diwygiwyd gan Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2019.

(2) Y darpariaethau a bennir at ddibenion paragraff (1) yw darpariaethau rheoliadau 5(3), 5(5), 9(3), 10(1), 13(1), 13(2), 13(3), 14(1), 23(1), 26(1), 30(1), 30(2), 31(1), 31(2), 31(3) a 31(5).

(3) Mae darparwr gwasanaeth yn cyflawni trosedd os yw'r darparwr yn methu â chydymffurfio â gofyniad unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a bennir ym mharagraff (4) a bod methiant o'r fath yn arwain at:

- (a) niwed y gellir ei osgoi (pa un ai o natur gorfforol neu seicolegol) i unigolyn,
- (b) unigolyn yn cael ei wneud yn agored i risg sylweddol o niwed o'r fath, neu
- (c) yn achos dwyn, camddefnyddio neu gamberchnogi arian neu eiddo, unrhyw golled gan unigolyn o'r arian neu'r eiddo o dan sylw.

(4) Y darpariaethau a bennir at ddibenion paragraff (3) yw darpariaethau rheoliadau 4, 5(1), 10(4), 12(1), 12(3), 15(1) a 19.

Troseddau – Unigolion Cyfrifol – Rheoliad 55

(1) Mae'n drosedd i'r unigolyn cyfrifol fethu â chydymffurfio â gofyniad unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a bennir ym mharagraff (2).

(2) Y darpariaethau a bennir at ddibenion paragraff (1) yw darpariaethau rheoliadau 36(1), 37(1), 40(1), 40(2), 42(1), 42(2), 43(1), 43(2), 44(1), 49(4), 50(1), 53(1) a 53(3).

Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019

Troseddau – Darparwyr Gwasanaethau – Rheoliad 64

(1) Mae'n drosedd i ddarparwr gwasanaeth fethu â chydymffurfio â gofyniad unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a bennir ym mharagraff (2).

(2) Y darpariaethau a bennir at ddibenion paragraff (1) yw darpariaethau rheoliadau 3(3), 3(5), 7(3), 8(1), 8(4), 11(1), 16(1), 16(2), 16(3), 28(1), 31(1), 36(1), 40(1), 40(2), 41(1) a 41(3).

(3) Mae darparwr gwasanaeth yn cyflawni trosedd os yw'r darparwr gwasanaeth yn methu â chydymffurfio â gofyniad unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a bennir ym mharagraff (4) a bod methiant o'r fath yn arwain at:

- (a) niwed y gellir ei osgoi (pa un ai o natur gorfforol neu seicolegol) i unigolyn,
- (b) unigolyn yn cael ei wneud yn agored i risg sylweddol o niwed o'r fath, neu
- (c) yn achos dwyn, camddefnyddio neu gamberchnogi arian neu eiddo, unrhyw golled gan unigolyn o'r arian neu'r eiddo o dan sylw.

(4) Y darpariaethau a bennir at ddibenion paragraff (3) yw darpariaethau rheoliadau 2, 3(1), 10(1), 10(3), 13(1), 13(3), 13(5), 14(1), 14(4), 17(1), 17(2), 21 a 27(1).

Troseddau – Unigolion Cyfrifol – Rheoliad 65

(1) Mae'n drosedd i'r unigolyn cyfrifol fethu â chydymffurfio â gofyniad unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a bennir ym mharagraff (2).

(2) Y darpariaethau a bennir at ddibenion paragraff (1) yw darpariaethau rheoliadau 46(1), 47(1), 50(1), 50(2), 52(1), 52(2), 53(1), 53(2), 54(1), 59(4), 60(1), 63(1) a 63(3).

Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019

Troseddau – Darparwyr Gwasanaethau – Rheoliad 55

(1) Mae'n drosedd i ddarparwr gwasanaeth fethu â chydymffurfio â gofyniad unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a bennir ym mharagraff (2).

(2) Y darpariaethau a bennir at ddibenion paragraff (1) yw darpariaethau rheoliadau 4(3), 4(5), 8(3), 9(1), 9(3), 15(1), 15(2), 15(3), 24(1), 27(1), 31(1), 31(2), 32(1) a 32(3).

(3) Mae darparwr gwasanaeth yn cyflawni trosedd os yw'r darparwr yn methu â chydymffurfio â gofyniad unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a bennir ym mharagraff (4) a bod methiant o'r fath yn arwain at:

- (a) niwed y gellir ei osgoi (pa un ai o natur gorfforol neu seicolegol) i unigolyn,
- (b) unigolyn yn cael ei wneud yn agored i risg sylweddol o niwed o'r fath, neu
- (c) yn achos dwyn, camddefnyddio neu gamberchnogi arian neu eiddo, unrhyw golled gan unigolyn o'r arian neu'r eiddo o dan sylw.

(4) Y darpariaethau a bennir at ddibenion paragraff (3) yw darpariaethau rheoliadau 3, 4(1), 11(1), 11(3) a 12(1).

Troseddau – Unigolion Cyfrifol – Rheoliad 56

(1) Mae'n drosedd i'r unigolyn cyfrifol fethu â chydymffurfio â gofyniad unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a bennir ym mharagraff (2).

(2) Y darpariaethau a bennir at ddibenion paragraff (1) yw darpariaethau rheoliadau 37(1), 38(1), 41(1), 41(2), 43(1), 43(2), 44(1), 44(2), 45(1), 50(4), 51(1), 54(1) a 54(3).

Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019

Troseddau – Darparwyr Gwasanaethau – Rheoliad 68

(1) Mae'n drosedd i ddarparwr gwasanaeth fethu â chydymffurfio â gofyniad unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a bennir ym mharagraff (2).

(2) Y darpariaethau a bennir at ddibenion paragraff (1) yw darpariaethau rheoliadau 4(3), 4(4), 8(3), 9(1), 12(1), 12(2), 12(3), 25, 26, 30(1), 33(1), 39(1), 39(2), 40(1), 40(2), 40(3), 40(4), 40(5) a 40(8).

(3) Mae darparwr gwasanaeth yn cyflawni trosedd os yw'r darparwr yn methu â chydymffurfio â gofyniad unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a bennir ym mharagraff (4) a bod methiant o'r fath yn arwain at:

- (a) niwed y gellir ei osgoi (pa un ai o natur gorfforol neu seicolegol) i blentyn,
- (b) plentyn yn cael ei wneud yn agored i risg sylweddol o niwed o'r fath, neu
- (c) yn achos dwyn, camddefnyddio neu gamberchnogi arian neu eiddo, unrhyw golled gan blentyn o'r arian neu'r eiddo o dan sylw

(4) Y darpariaethau a bennir at ddibenion paragraff (3) yw darpariaethau rheoliadau 3, 4(1), 9(5), 11(1), 11(3), 13, 20, 27(3) a 29.

Troseddau – Unigolion Cyfrifol – Rheoliad 69

(1) Mae'n drosedd i'r unigolyn cyfrifol fethu â chydymffurfio â gofyniad unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a bennir ym mharagraff (2).

(2) Y darpariaethau a bennir at ddibenion paragraff (1) yw darpariaethau rheoliadau 50(1), 51(1), 54(1), 54(2), 56(1), 56(2), 57(1), 57(2), 58(1), 63(4), 64(1), 67(1) a 67(4).

Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010

- Adran 21 (5) heb esgus rhesymol yn gweithredu fel gwarchodwr plant yn groes i hysbysiad gorfodi.
- Adran 23 (2) heb esgus rhesymol yn darparu gofal dydd i blant mewn unrhyw fangre yng Nghymru heb fod wedi'i gofrestru i ddarparu gofal dydd i blant yn y fangre honno.
- Adran 29 (4) heb esgus rhesymol, yn methu â chydymffurfio ag unrhyw un o'r amodau a osodir.
- Rheoliadau a wnaed o dan adran 30(4) heb esgus rhesymol yn mynd yn groes neu fel arall yn methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad yn y rheoliadau.
- Adran 32 (7) gweithredu fel gwarchodwr plant yng Nghymru ar adeg pan oedd cofrestriad y person hwnnw wedi'i atal neu ddarparu gofal dydd mewn unrhyw fangre pan oedd cofrestriad y person hwnnw mewn perthynas â'r fangre honno wedi'i atal.
- Adran 39 (3) gweithredu fel gwarchodwr plant yng Nghymru tra oedd wedi ei anghymhwyso.
- Adran 39 (3) darparu gofal dydd yng Nghymru neu ymwneud yn uniongyrchol â rheoli unrhyw ddarpariaeth gofal dydd yng Nghymru tra oedd wedi ei anghymhwyso.

- Adran 39 (3) cyflogi person sydd wedi ei anghymhwysu rhag cofrestru, mewn cysylltiad â darpariaeth gofal dydd neu warchod plant yng Nghymru.
- Adran 42 (7)(a) heb esgus rhesymol, yn rhwystro person sy'n arfer unrhyw bŵer o dan adran 41 neu 42.
- Adran 42 (7)(b) heb esgus rhesymol, yn methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad a osodir o dan adran 42.
- Adran 46 (1) mewn cais i gofrestru, yn gwneud datganiad y mae'n gwybod ei fod yn anwir neu'n gamarweiniol mewn manylyn perthnasol.
- Adran 50 (os profir bod trosedd wedi ei chyflawni gan gorff corfforaethol) cyflawnir trosedd ar wahân os yw'r drosedd gan y corff corfforaethol wedi ei chyflawni gyda chydysyniad neu ymoddefiad, neu i'w phriodoli i unrhyw esgeulustod ar ran, unrhyw gyfarwyddwr, rheolwr, neu swyddog arall tebyg yn y corff corfforaethol, neu unrhyw berson a oedd yn honni ei fod yn gweithredu yn rhinwedd unrhyw swyddogaeth o'r fath.
- Adran 51 (5) (os dangosir bod trosedd wedi ei chyflawni gan gymdeithas anghorfforedig) cyflawnir trosedd ar wahân os yw'r drosedd gan y gymdeithas anghorfforedig wedi ei chyflawni gyda chydysyniad neu ymoddefiad un o swyddogion y gymdeithas neu aelod o'i chorff llywodraethu, neu i'w phriodoli i unrhyw esgeulustod ar ran y cyfryw swyddog neu aelod.

Deddf Plant 1989

- Paragraff 5 (1)(a) o Atodlen 9A gweithredu fel gwarchodwr plant ar unrhyw adeg pan oedd wedi ei anghymhwysu rhag cofrestru ar gyfer gwarchod plant.
- Paragraff 5 (1)(b) o Atodlen 9A a rheoliad 11 (4) i Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwysu) (Cymru) 2010 heb esgus rhesymol, methu â chydymffurfio â rheoliad 11 mewn perthynas â datgelu.
- DS: Yn rhinwedd paragraff 5 (2) o Atodlen 9A, ni fydd person yn euog o drosedd o dan y ddarpariaeth uchod os gall brofi nad oedd yn gwybod, ac nad oedd ganddo sail resymol dros gredu, bod y person dan sylw yn byw ar yr aelwyd neu'n gyflogedig yno.
- Paragraff 5 (1)(b) o Atodlen 9A darparu gofal dydd neu ymwneud â rheoli gofal dydd, neu fod ag unrhyw fuddiant ariannol mewn darparu gofal dydd, tra bo wedi ei anghymhwysu rhag cofrestru ar gyfer darparu gofal dydd.
- Paragraff 5(1)(b) o Atodlen 9A cyflogi person mewn cysylltiad â darparu gofal dydd sydd wedi ei anghymhwysu rhag cofrestru ar gyfer darparu gofal dydd.

DS: Yn rhinwedd paragraff 5 (3) o Atodlen 9A, ni fydd person yn euog o drosedd o dan y ddarpariaeth uchod os gall brofi nad oedd yn gwybod, ac nad oedd ganddo sail resymol dros gredu, bod y person a gyflogid ganddo wedi ei anghymhwysu.

